Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glanwydden
# Ffordd Derwen
# Bae Penrhyn
# Llandudno
# Conwy
# LL30 3LB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Glanwydden ar gyrion Bae Penrhyn, ger Llandudno. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Bae Penrhyn, Glanwydden, Bryn Pydew, Llanrhos ac Ochr Penrhyn yn bennaf, er bod rhai ohonynt yn dod o Landudno a Llandrillo-yn-rhos. Mae 312 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 41 o blant oedran meithrin sy'n mynychu naill ai yn y bore neu'r prynhawn. Mae 11 o ddosbarthiadau yn yr ysgol, a saith ohonynt yn ddosbarthiadau oedran cymysg. Mae'r ysgol yn ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf, a gwneir defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan 4.8% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi Saesneg. Mae rhai ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn ohonynt sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Gwaharddwyd dau ddisgybl yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2008. Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2012. Penodwyd dau bennaeth cynorthwyol yn Ebrill 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Glanwydden yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,320 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,575 a'r isafswm yw £3,320. Mae Ysgol Glanwydden yn safle 58 allan o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae'r safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer iaith Gymraeg disgyblion yn rhagorol;
- mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda iawn, maent yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- mae profiadau dysgu cyfoethog ac addysgu o ansawdd da yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn ymgysylltu;
- mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth; ac
- mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion yn cael effaith dda ar eu safonau a'u lles.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar wella safonau, datblygu dwyieithrwydd a lles disgyblion;
- mae arweinwyr yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, sy'n deillio o weithdrefnau hunanasesu effeithiol;
- mae pob aelod o staff yn glir ynghylch eu rolau, maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau gwella'r ysgol;
- mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol; ac
- mae trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws yr ysgol

A2 Cryfhau rôl uwch arweinwyr wrth fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A3 Ymestyn cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â safonau sy'n cyd-fynd yn fras â'r rhai a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, a disgyblion gallu uwch yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd gyda staff, ymwelwyr a gyda'i gilydd. Maent yn gwrando'n dda ar bobl eraill ac yn parchu eu safbwyntiau. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol mewn gwersi.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae bron pob un ohonynt yn dangos diddordeb yn y llyfrau ac yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth gynyddol. Mae llawer ohonynt yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn frwdfrydig. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn dda ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Maent yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad storïau. Gall llawer ohonynt fwrw golwg dros ddarn yn gynyddol i gael ei ystyr a chasglu gwybodaeth. Maent yn dangos medrau da wrth ddod i gasgliad ac yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae bron pob un ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau ysgrifennu estynedig rhai disgyblion uwch eu gallu wedi datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio ystod o strwythurau brawddeg a geirfa ddiddorol. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau ac mae eu hysgrifennu yn aml yn feddylgar a llawn dychymyg. Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda i greu darnau estynedig o ysgrifennu o ansawdd da ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn hanes ac addysg grefyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn caffael medrau rhifedd yn raddol ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn gyson ac yn dda ar draws ystod o bynciau o fewn y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth ac yn ei throsglwyddo ar graff syml yn annibynnol, er enghraifft yng nghyd-destun

gwaith thema ar y corff. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. Maent yn cyfrif yn gywir ac yn defnyddio'u gallu i newid rhwng y cloc 12 awr a'r cloc 24 awr i ddarllen amserlenni teithio yn gymwys. Maent yn gwneud amcangyfrifon cywir wrth ddelio â màs a chynhwysedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o ystod o fedrau trin data, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gofnodi eu canfyddiadau gan ddefnyddio amrywiaeth o graffiau, sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn defnyddio eu medrau datrys problemau a'u medrau ymchwiliol yn dda ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm, ac yn arbennig mewn daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu Cymraeg. Maent yn mwynhau dysgu Cymraeg mewn ystod o bynciau ac yn defnyddio'r Gymraeg yn dda wrth gyd-addoli, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac o gwmpas yr ysgol yn gyffredinol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud a gyda dealltwriaeth dda. Maent yn siarad Cymraeg gyda chywirdeb sy'n datblygu ac ynganiad da. Maent yn mwynhau darllen yn Gymraeg ac yn defnyddio ystod o batrymau brawddeg Cymraeg syml yn hyderus yn eu gwaith ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau a arsylwyd mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn dangos rhinweddau rhagorol yn glir. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Defnyddiant ystod eang o batrymau brawddeg yn gywir ac yn effeithiol. Maent yn holi ac yn ateb amrywiaeth o gwestiynau yn dda iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen yn gywir a gyda mynegiant. Maent yn ysgrifennu yn Gymraeg gyda chywirdeb ac yn aml yn estynedig mewn ystod o bynciau. Mae disgyblion mwy abl yn darllen testunau heriol ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig rhagorol at ystod o ddibenion mewn gwahanol bynciau.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig wedi dirywio. Mae perfformiad mewn medrau llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6, mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mewn datblygiad mathemategol, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn 2013 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae'r ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer mathemateg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi amrywio, sy'n golygu ei bod rhwng y 50% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 mewn Saesneg dros yr un cyfnod wedi amrywio, gan osod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg ar y lefel hon wedi amrywio, gan osod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

## Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth sicr o'r angen i fwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt hyder yng ngallu'r staff i ddelio'n effeithiol ag unrhyw achosion o ymddygiad negyddol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn foesgar a hyderus gydag ymwelwyr. Mae eu hymddygiad yn gyson dda mewn ystafelloedd dosbarth ac amser egwyl, a dangosant barch, gofal a phryder am bobl eraill. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac ar y cyd â phobl eraill. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn gynyddol mewn asesu eu cynnydd eu hunain ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae ffigurau presenoldeb wedi bod uwchlaw 95% mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r blynyddoedd hynny. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae gan y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'n meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Gwnânt benderfyniadau sy'n gwella ansawdd y profiadau dysgu i ddisgyblion, er enghraifft ar ôl eu harfarniad diweddar o amgylchedd yr ysgol. Mae aelodau'n credu bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu yn unol â nhw. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cymuned leol ac yn siarad yn rhwydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol cymunedol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o anghenion pobl eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a diddorol yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac mae'n cynnwys holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae staff yn defnyddio'r ardal awyr agored yn helaeth i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i bob disgybl.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd i sicrhau bod y cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyson dda i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Mae rhaglenni ymyrraeth sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion y mae eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyfyngedig yn eu galluogi i gaffael y medrau sydd eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm ehangach.

Mae'r ysgol yn creu ethos rhagorol sy'n hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'n darparu cyfleoedd rhagorol i sicrhau bod

disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at y pwnc. Mae'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol, yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn dda iawn. Nodwedd gref iawn yw ymdriniaeth yr ysgol o arlunwyr o Gymru a'i gwerthfawrogiad ohonynt. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn gwersi trwy gydol y dydd. Mae staff yn y Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau darllen, ysgrifennu a siarad ym mhob maes dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn grwpio disgyblion o alluoedd gwahanol yn effeithiol i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da, a da iawn yn aml. Mae cynllunio gofalus a dewis o ddeunydd a thestun darllen diddorol sy'n aml yn heriol, yn golygu bod medrau disgyblion yn datblygu'n dda iawn fel bod disgyblion mwy abl yn aml yn dewis ysgrifennu yn Gymraeg mewn pynciau eraill fel hanes, dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o effeithiau posibl cynhesu byd-eang, ac yn gallu eu trafod. Mae ymglymiad disgyblion ym mhrosiect Comenius yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn llwyddiannus ac yn rhoi mewnwelediad iddynt i'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd eraill sy'n cymryd rhan.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gyson dda. Mae pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gyfoes ac yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell yn effeithiol. Maent yn creu awyrgylch cadarnhaol lle mae disgyblion yn ymdrechu'n galed ac nid oes ofn gwneud camgymeriadau arnynt. Maent yn cynllunio gwersi yn ofalus ac yn trefnu gweithgareddau'n dda. Maent yn holi cwestiynau effeithiol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn datblygu gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac ar y cyd yn llwyddiannus ar draws yr ystod oedran. Mae pob un o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn effeithiol iawn mewn ystod o sefyllfaoedd i ddatblygu medrau Cymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau parhaus yn dda i lywio eu cynllunio a gosod nodau dysgu ar gyfer y dyfodol i ddisgyblion. Maent yn rhoi adborth llafar cadarnhaol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae gweithdrefnau a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi arwain at gysondeb gwell mewn adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Mae sylwadau'n gefnogol ac, yn yr enghreifftiau gorau, yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Yn y rhan fwyaf o wersi, defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda i alluogi disgyblion i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain. Fodd bynnag, ni chaiff y strategaethau hyn eu hymgorffori'n gyson ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion lleol eraill i gryfhau dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad. O ganlyniad, mae asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn ddilys. Mae adroddiadau i rieni yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion a'u hannog i gymryd rhan yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud ymarfer corff mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae lefel uchel y gofal a'r perthnasoedd gweithio da rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gryf at les disgyblion. Mae'r ysgol yn meithrin diwylliant o gwrteisi, parch a goddefgarwch yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn ysgol hapus iawn y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ynddi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol ac arbenigwyr i fodloni anghenion disgyblion. Mae gwasanaethau fel yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a seicolegwyr addysg yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd i weithio gyda disgyblion, rhieni a staff. Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn gyson. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer gwaredu unrhyw ymddygiad gormesol neu fwlio ac ar gyfer hyrwyddo presenoldeb rheolaidd. Mae trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion disgyblion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn llwyddo i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar. Mae hyn yn arwain at raglen drefnus o gymorth ac arweiniad targedig ar gyfer y disgyblion hyn ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn unol â'u cynlluniau dysgu unigol. Mae gan ddisgyblion a'u rhieni rôl weithredol mewn adolygu cynnydd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol hapus a chynhwysol hon yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer pob disgybl. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl ac fe gânt eu hannog i gymryd rhan yn llawn ym mhob gweithgaredd. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pob disgybl ac yn parchu a dathlu amrywiaeth o fewn y gymuned. Ceir polisïau priodol ar gyfer delio ag ymddygiad gormesol, gwahaniaethu hiliol, anabledd a chyfle cyfartal, a chânt eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhieni, gofalwyr a disgyblion yn deall y rhain yn dda. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn herio stereoteipio ac mae staff yn delio'n gyflym ag unrhyw faterion neu gwynion cysylltiedig sy'n codi.

Mae'r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'n ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl le sydd ar gael, sy'n sicrhau bod mannau penodol ar gael ar gyfer rhoi cymorth i grwpiau bach. Mae ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol o amgylch yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a gynhelir yn dda sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da mewn ystafelloedd dosbarth, gan gynnwys adnoddau TGCh sy'n gweddu i anghenion disgyblion yn briodol.

Mae'r ardal awyr agored, sy'n cynnwys wal ddringo a gardd, wedi cael ei datblygu'n effeithiol i ddarparu mannau ysgogol a deniadol ar gyfer gweithgarwch corfforol, chwarae a dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau, dwyieithrwydd a lles disgyblion. Mae'n darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol yn ei gynorthwyo'n dda i gyfleu disgwyliadau o safonau uchel ym mhob maes ar draws yr ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd clir ac mae eu rolau wedi'u diffinio'n dda. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd, sy'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella, yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn cael trosolwg cywir o safonau addysgu a dysgu disgyblion trwy fonitro gwersi. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad i'r holl athrawon drafod ac adolygu eu gofynion datblygiad proffesiynol wedi'u sefydlu'n dda. Mae gwybodaeth am berfformiad disgyblion a gweithgareddau monitro yn llywio targedau'r ysgol yn dda. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn enwedig datblygu dwyieithrwydd.

Mae'r llywodraethwyr yn deall data perfformiad yr ysgol yn dda ac mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol. Mae llywodraethwyr wedi cymryd rhan yn llawn mewn helpu i bennu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu'r ysgol. Daw rhai llywodraethwyr i'r ysgol i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r modd y mae'r ysgol yn gweithredu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn cofnodi eu canfyddiadau ac yn adrodd yn ôl amdanynt yn briodol wrth y corff llywodraethol llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae systemau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu yn arwain at arfarniad cywir o'i pherfformiad presennol. Mae staff a llywodraethwyr yn cyfrannu at strategaethau hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddiad o ddata asesu, arsylwadau o addysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn gofyn am safbwyntiau disgyblion a rhieni fel rhan o'r broses.

Mae gan uwch arweinwyr ddarlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn fanwl a chynhwysfawr. Mae'n nodi'n gywir ble mae angen gwelliannau ar draws agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae rôl fonitro'r uwch dîm rheoli yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae rôl y penaethiaid cynorthwyol mewn monitro ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyfyngedig.

Mae deilliannau hunanarfarnu yn llywio cynllunio datblygiad yn uniongyrchol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cymeradwyo'r cynllun. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu nifer hylaw o dargedau ar gyfer gwella'r ysgol mewn cynllun datblygu ysgol manwl. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'n cynnwys targedau mesuradwy ac yn nodi graddfeydd amser, costau, a meini prawf llwyddiant, ac mae'n nodi staff sydd â rolau allweddol mewn

rhoi'r cynllun ar waith. Mae'r ysgol yn gosod targedau meintioledig er mwyn gallu mesur cynnydd yn gywir. Mae cynllun gweithredu'r ysgol ar gyfer rhoi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith yn mynd rhagddo'n dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys yr eglwys, y gymuned leol a'r awdurdod lleol er mwyn gwella safonau a lles disgyblion.

Mae rhieni'n gefnogol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae'r ysgol yn eu cynnig iddynt fel eu bod yn gwybod beth yw lefel ddisgwyliedig y gwaith y dylai eu plant ei gynhyrchu. Mae cymdeithas weithgar rhieni, athrawon a ffrindiau wedi codi arian i ddarparu'r cyfleuster negeseuon testun, er enghraifft i wella cyfathrebu gyda'r ysgol.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn gryf ac amrywiol ac mae disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gydag ystod o asiantaethau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o wirfoddolwyr o asiantaeth gymeradwy i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Ceir cysylltiadau cryf a chynhyrchiol gyda'r ddarpariaeth 'Cylch Meithrin' sy'n cyfarfod ar y safle. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau pontio i'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol hefyd ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o neuadd chwaraeon yr ysgol uwchradd leol er mwyn cynnig gweithgareddau chwaraeon ar ôl yr ysgol.

Mae athrawon wedi gweithio'n dda gyda staff o ysgolion eraill i sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i gymedroli a safoni gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli a defnyddio adnoddau staffio ac adnoddau ariannol yn effeithiol i gefnogi dysgu. Mae nifer briodol o athrawon a staff cymorth cymwys ar gyfer nifer y disgyblion. Gwneir defnydd da o arbenigedd a gwybodaeth staff cymorth i roi cymorth effeithiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae trefniadau da ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion pob aelod o staff trwy weithdrefnau rheoli perfformiad priodol a rhoddir cyfleoedd addas i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn yr ysgol yn datblygu'n dda; fodd bynnag, mae cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda y tu hwnt i'r ardal leol yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda, sy'n sicrhau bod ystod briodol o adnoddau dysgu ac addysgu ar gael. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn unol â'r targedau a nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig (deilliant 5) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol yw'r isaf yn y teulu o ysgolion. O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y 25% isaf ym mhob un o'r tri maes. Yn 2013, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ym mhob un o'r tri maes hefyd. O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn y 25% isaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol. Mae wedi bod yn y 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2013, mae canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn yr un teulu mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Mae perfformiad yr ysgol yn 2013 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae yn y 25% uchaf ar gyfer mathemateg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi amrywio, gan ei gosod rhwng y 50% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf am ddwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yn 2013, mae canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel 5 uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio. Roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch mewn gwyddoniaeth yn gyson uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol yn 2013 ar y lefel hon mewn Saesneg yn golygu ei bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae yn y 50% is ar gyfer mathemateg ond yn y 50% uchaf ar gyfer gwyddoniaeth. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar lefel 5 mewn Saesneg wedi amrywio, gan ei gosod rhwng y 25% uchaf ac isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf am ddwy flwyddyn ac yn y 50% is am y ddwy flwyddyn arall. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hyn.

Ni fu unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched na rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 101 | 91<br>90%<br>92% | 10<br>10%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 101 | 98<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 101 | 92<br>91%<br>98% | 9<br>9%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 101 | 100<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 88<br>88%<br>96% | 12<br>12%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 101 | 97<br>96%<br>99% | 4<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 98<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 101 | 85<br>84%<br>91% | 16<br>16%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 101 | 93<br>92%<br>95% | 8<br>8%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 99 | 67<br>68%<br>77% | 32<br>32%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 100 | 77<br>77%<br>84% | 23<br>23%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 60 | 39 | 19 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 32% | 2% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 59 | 46 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 60 | 43 | 14 | 1 | 1 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 23% | 2% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 59 | 34 | 20 | 2 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 34% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 59 | 26 | 24 | 2 | 0 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 60 | 34 | 23 | 0 | 1 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 57% | 38% | 0% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 59 | 40 | 18 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 68% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 56 | 26 | 20 | 2 | 1 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 36% | 4% | 2% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 59 | 30 | 20 | 4 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 51% | 34% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 59 | 37 | 21 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 58 | 38 | 19 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 54 | 22 | 20 | 2 | 1 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 37% | 4% | 2% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 57 | 24 | 27 | 3 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 42% | 47% | 5% | 5% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 57 | 35 | 19 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 61% | 33% | 4% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 26 | 24 | 4 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 41% | 7% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 60 | 31 | 26 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 52% | 43% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 45 | 16 | 14 | 1 | 2 | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 36% | 31% | 2% | 4% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 59 | 31 | 23 | 1 | 1 | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 2% | 2% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 59 | 34 | 23 | 0 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 58% | 39% | 0% | 2% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Tîm |
| John David Dyer | Arolygydd Lleyg |
| Eifion Lloyd Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| John Paul Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.